CYNGOR CYMUNED LLANDDYFNAN

COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD NOS FAWRTH
19 Mehefin 2018, Neuadd Talwrn
am 7:00 y.h.

YN BRESENNOL: Cyng W Vaughan, C Jones, D Morgan, D Pritchard, D Roberts, A Wyn, D ap Rhobert, W Williams, A Williams, D Rees (Cyngor Sir)	
YMDDIHEURIADAU: Dim	
1	Cadeirwyd y cyfarfod gan y Cadeirydd Cyng D Morgan. Cynigodd y Cadeirydd croeso i pawb a diolchiadau i Cyng D Pritchard am cadeirio drost y blwyddyn diwethaf.
2	**DATGAN DIDDORDEB** - Dim
3	**DERBYN COFNODION** Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod 15.05.18. Fe'u derbyniwyd fel rhai cywir a chyflawn. Cyng D Pritchard yn cynnig a Cyng W Vaughan yn eilio.
4	**MATERION YN CODI O'R COFNODION**
4.1	**Gofeb Talwrn** - Mae'r Clerc wedi cael ymateb gan yr Eglwys yng Nghymru i wneud a symud y plac ac yn dweud bydd angen caniatad gan Adran Cynllunio Ynys Môn oherwydd bod yr adeilad yn adeilad rhestredig.
4.2	**Halfway, Talwrn (ildio)** - Mae'r Clerc yn disgwyl i'r Cyngor Sir symud yr arwydd at cyfeiriad Llangefni
4.3	**Mynwent Llanddyfnan (perchnogaeth)** - Mae'r Clerc yn disgwyl ymateb gan yr Eglwys yng Nghymru. Hefyd, dywedodd Cyng W Vaughan bod y ffens yn dechrau dod i lawr unwaith eto.
4.4	**Lloches Bws** - Dywedodd y Clerc bod y llochesi bysiau wedi cael ei wneud. Hefyd, oedd rhaid cyflogi cwmni goleuadau traffig.
4.5	**Cwynion am cyflwr Lôn Bodffordd - Lôn Llanerchymedd** - Mae'r Clerc yn disgwyl ymateb gan y Cyngor Sir
4.6	**Problemau gyda BT Broadband** - Mae BT yn gweithio ar y broblem
4.7	**Llwybr wrth ymyl yr Hen Siop Talwrn** - Mae'r Clerc wedi cysylltu a'r Cyngor Sir i gofyn a oes gan y Cyngor Cymuned yr hawl i agor a cynnal y llwbyr
4.8	**Palmentydd yn Llangwyllog** - Cynigodd Cyng C Jones trefnu deiseb
4.9	**Coed angen ei dorri** o gwmpas lamp (rhif 5) wrth ymyl Bodlondeb (hefyd lamp wrth ymyl Hafod y Coed). Darllenwyd ymateb gan y Cyngor Sir yn dweud " Rwyf wedi cael golwg ar y coed yma yn ol yn mis Ionawr a does dim pwerau gan yr adain strydoedd i dorri y coed yma oherwydd nid ydynt yn peryglu neu rwystro ffordd cerbydau neu gerddwyr. Nid ywr coed yn ymharu ar golau strydoedd. Atodaf luniau or coed a'r golau strydoedd. Mi gadwai lygad ar y coed yn ystod yr haf i weld os ydynt yn tyfu ar draws y golau"
	Llofnod…….Cadeirydd 28.08.18

5	**GOHEBIAETH CYNGOR YNYS MON**
	Cynllunio
5.1	23C223E cais llawn ar gyfer codi ty haf yn Rhandir, Talwrn - dim sylwadau
5.2	23C352 cais llawn ar gyfer addasu ac ehangu yn 10 Lon Newydd, Talwrn - dim sylwadau
5.3	Ymgynghori Cyhoeddus Canllawiau Cynllunio Atodol - Bydd unrhyw un â sylwadau yn ei gyflwyno i'r Cyngor Sir erbyn 5 Gorffennaf
6	**GOHEBIAETH YCHWANEGOL**
	Dim
7	**MATERION ARIANNOL**
	Dim
8	**MATERION ERAILL**
8.1	Dywedodd y Clerc bod twrch ddaear yn mynwent Llanddyfnan unwaith eto. Mae wedi cyflogi rhywun i wneud y gwaith.
8.2	Dywedodd Cyng D Morgan bod y glaswellt wedi tyfu'n wyllt gyferbyn a 15 Maes y Coed. Bydd y Clerc yn gofyn i'r Cyngor Sir ystyried gwneud y gwaith.
8.3	Cais i llenwi sedd wâg gan Mr Clive McGregor. Cytunwyd i gyf-ethol Mr McGregor
8.4	Pwyllgor Scrutini 5 Gorffennaf (yn cynnwys Ysgol Talwrn ar yr agenda). Cynigodd Cyng D Morgan cynrychioli y cyngor yn y cyfarfod
9	**MATERION AR GYFER Y RHAGLEN NESAF**
9.1	Cyflwr lonydd
9.2	Pwyllgor y Neuadd
9.3	Gwair heb cael ei dorri yn y maes chwarae
	Llofnod…….Cadeirydd 28.08.18